



**Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg**

**27 Chwefror 2023**

**Cofnodion**

<b>Yn bresennol:</b>		
<b>Enw</b>	<b>Teitl</b>	<b>Sefydliad</b>
Y Cynghorydd Lis Burnett (LB)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Suzanne Rankin (SR)	Prif Weithredwr	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Rob Thomas (RT)	Prif Weithredwr	Cyngor Bro Morgannwg
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Eirian Evans (EE - GPC)	Pennaeth De Cymru Un	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu	Llywodraeth Cymru
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
Estelle Hitchon (EH)	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Robert Wilkinson (RW)	Arweinydd Cynllunio Gwasanaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Danny Richards (DR)	Prif Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Emil Evans (EE - CCF)	Dirprwy Bennaeth	Coleg Caerdydd a'r Fro
John Treherne (JT)	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Geoff Hobbs (GH)	Uwch Swyddog, Canol De Cymru, Tîm Pobl a Lleoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru
<b>Hefyd yn bresennol:</b>		
Tom Bowring (TB)	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg

Andreas Pieris-Plumley (APP)	Intern Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Lance Carver (LC)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyngor Bro Morgannwg
Meredith Gardiner (MG)	Pennaeth Partneriaethau a Sicrwydd	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
<b>Ymddiheuriadau:</b>		
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Y Cynghorydd Shirley Hodges (SH)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref y Barri
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Mike Evans (ME)	Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Marie Davies (BIP)	Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Paula Ham (PH)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg

Rhif	Eitem Agenda	Camau Gweithredu
1.	<b>Croeso a Chyflwyniadau</b>  Croesawodd LB bawb i gyfarfod y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.	
2.	<b>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</b>  Gweler uchod.	
3.	<b>Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 23 Ionawr 2023</b>  Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.	
4.	<b>Cynllun Ardal ar y Cyd Drafft Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro</b>  Cyflwynodd MG Gynllun Ardal ar y Cyd Drafft y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r cynllun wedi cael ei lywio gan Asesiad Anghenion y Boblogaeth ac mae'n gasgliad o flaenoriaethau sydd wedi deillio o waith ymgysylltu yn ogystal â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau partneriaid eraill. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ceisio nodi'r blaenoriaethau allweddol a fydd yn effeithio fwyaf ar ddinasyddion dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd gan y cynllun gyfres o ymrwymadau, gyda phob ymrwymiad yn datgan yr hyn	

	<p>y mae am ei gyflawni a phwysigrwydd y nod hwn. Bydd hefyd yn dangos sut y bydd yr ymrwymiad yn cael ei gyflawni'n barhaus. Mae gwaith ymgysylltu wedi dangos bod angen i'r cynllun ganolbwyntio ar ganlyniadau, a bod yn benodol o ran yr hyn a gaiff ei gyflawni a'i fesur. Bydd mwy o waith yn cael ei wneud i gryfhau hyn cyn y cynllun terfynol. Gofynnodd MG a allai'r aelodau roi eu barn ar y cynllun o fewn y 2 wythnos nesaf. Cytunodd yr holl aelodau i roi adborth ar yr ymrwymadau yn ogystal â sut y gallwn i gyd weithio gyda'n gilydd i'w cyflawni. Bydd yr adborth yn cael ei ymgorffori yn fersiwn derfynol y cynllun.</p> <p>Diolchodd AH i'r tîm a chanmolodd lefel yr ymgysylltu a wnaed. Awgrymodd AH ei bod yn bwysig nodi'r metrigau i fesur yr hyn a fydd yn wahanol i'r gymuned ac i allu barnu llwyddiannau.</p> <p>Atgoffodd LC fod angen i ni fod yn ofalus o ddyblygu rhwng cynlluniau.</p> <p>Gofynnodd JC a oes cysylltiad â'r newid yn yr hinsawdd ac addasu o fewn y cynllun.</p> <p>Esboniodd MG y bydd cysylltiad â'r newid yn yr hinsawdd yn y cynllun gyda chyfeiriad at faterion megis yr agenda carbon.</p> <p>Gofynnodd LB sut yr ymgysylltir â'r gymuned ehangach.</p> <p>Esboniodd MG ei bod wedi bod yn anodd ers covid i ymgysylltu â grwpiau cymunedol y bydden nhw fel arfer yn ymgysylltu â nhw. Mae'n dibynnu ar y grŵp poblogaeth gan fod rhai yn cael eu clywed yn fwy aml nag eraill. Yn ogystal, mae gan y tîm gysylltiadau gwell â rhai grwpiau sydd wedi gwneud ymgysylltu â'r rhain yn haws. Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd mwy o grwpiau, bu gwaith gyda'r trydydd sector a llawer o ymgysylltu ar-lein.</p> <p>Gofynnodd MG i'r cynllun gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p>	<p><b>Pawb</b></p>
<p><b>5.</b></p>	<p><b>Cynllun Lles</b></p> <p>Esboniodd HM fod yr ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid bellach wedi dod i ben, ac mae'r adborth wedi'i ymgorffori yn fersiwn gyfredol y cynllun. Ar y cyfan, mae'r adborth wedi bod yn adeiladol ac yn gadarnhaol, gyda rhai themâu allweddol yn dod drwodd. Nodwyd bod atal a meddwl hirdymor yn bwysig yn ogystal ag angen am fwy o bwyslais ar ddiwylliant a'r Gymraeg.</p> <p>Esboniodd HM, os caiff y cynllun ei gymeradwyo yn y cyfarfod hwn, y bydd yn mynd at Bwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol y Cyngor ar 15 Mawrth a thrwy bwyllgorau/byrddau pob sefydliad partner. Yna byddai'n cael ei gymeradwyo'n ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 3 Mai.</p>	

	<p>Esboniodd HM y gwaith o gryfhau atal a meddwl hirdymor drwy gydol y cynllun. Mae graffeg wedi'u diweddarau i ddangos datblygiad y cynllun ac adran newydd ar ddiwylliant a'r Gymraeg o ganlyniad uniongyrchol i adborth. Mae'r 19 cam wedi'u hail-drefnu ac mae rhai diwygiadau wedi'u gwneud megis mwy o bwyslais ar ymwneud.</p> <p>Mae adran wedi'i hychwanegu i esbonio sut y bydd cynnydd yn cael ei adrodd. Hefyd, mae adran newydd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y sylfaen dystiolaeth ac i esbonio'r gwaith o fynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen, wedi'i chynnwys. Roedd yr adran hon yn ymateb i sylw gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adran Yr hyn ddywedoch chi wrthym wedi'i diweddarau ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben ac mae'n adlewyrchu adborth ychwanegol ar y cynllun. Bydd yr amcan Bro fwy actif ac iach yn cael ei ddiweddarau i dynnu sylw at y manteision ymhellach.</p> <p>Esboniodd LB fod angen i'r partneriaid gytuno ar y newidiadau i'r cynllun yn barod iddo fynd i'r pwyllgor craffu. Y camau nesaf fydd edrych ar sut y bydd y partneriaid yn cyfrannu at gyflawni'r ymrwymadau yn y cynllun. Gofynnwyd i'r partneriaid hefyd gytuno i'r cais gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal asesiad risg argyfwng hinsawdd. Gofynnir i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus wneud y gwaith hwn a bydd yn cael cymorth gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Cytunwyd ar hyn.</p> <p>Awgrymodd FK y dylid datblygu set o fesurau i fesur sut mae'r cynllun yn mynd yn ei flaen.</p> <p>Awgrymodd MG y gellid ymgysylltu mewn partneriaeth yn y dyfodol i gyrraedd mwy o'r gymuned ac i gryfhau cynlluniau'r holl bartneriaid.</p> <p>Dywedodd AH fod dangosyddion lefel uchel ar gyfer yr hyn yr ydym am ei olrhain yn bwysig. Awgrymodd AH y dylid edrych ar amserlenni ar gyfer rhai o'r 19 cam a sut y byddwn yn mesur eu cynnydd.</p> <p>Esboniodd HM fod llawer o waith ar y gweill i fesur canlyniadau megis adroddiadau blynyddol a datblygu'r sylfaen dystiolaeth, gan adeiladu ar yr Asesiad Lles. Ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo gellir canolbwyntio mwy o waith ar hyn.</p> <p>Nododd LB fod pawb wedi cytuno i'r cynllun gael ei graffu a mynd trwy'r gwahanol fecanweithiau cymeradwyo partner.</p> <p>Diolchwyd i'r tîm am yr holl waith a wnaed ar y Cynllun newydd.</p> <p>Gadawodd LB y cyfarfod – cymerodd MB yr awenau fel cadeirydd.</p>	
6.	<b>Cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi byrddau gwasanaethau cyhoeddus</b>	

	<p>Esboniodd TB fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod peth cyllid ar gael i gefnogi gwaith byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn rhanbarthol ledled Caerdydd a'r Fro ac mae £58,440 ar gael ar gyfer y flwyddyn. Mae cynnig yn cael ei ddrafftio i'w gyflwyno a bydd yn cael ei ddsbarthu i'r partneriaid. Bydd yn canolbwyntio ar weithgareddau datblygu data ac ymgysylltu yn unol â'r meini prawf cyllido ac ar adeiladu ar waith presennol.</p>	TB
7.	<p><b>Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd</b></p> <p>Esboniodd FK fod yr adroddiad blynyddol yn ymwneud â sicrhau canlyniadau gwell trwy dull sy'n seiliedig ar werth. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at offer a thechnegau y gall pob sefydliad sector cyhoeddus eu defnyddio. Esbonnir y berthynas rhwng dull sy'n seiliedig ar werth a thegwch ac mae enghreifftiau o arfer gorau yn cael eu rhoi. Mae'r adroddiad yn esbonio'r camau y gellir eu cymryd i weithredu dull sy'n seiliedig ar werth yn gyson. Ar ben hynny, mae chwe argymhelliad yn yr adroddiad y gallai unrhyw sefydliad eu defnyddio i weithredu dull sy'n seiliedig ar werth.</p> <p>Dywedodd HM fod yr adroddiad yn taro deuddeg gyda'r gwaith sy'n ymwneud â chymunedau o amddifadedd sy'n cael ei wneud gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac y gellid defnyddio'r adroddiad i helpu i lywio'r gwaith hwn.</p> <p>Gofynnodd GH sut y gellid defnyddio'r dull a amlinellir yn yr adroddiad i lywio sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dyrannu adnoddau. Awgrymodd FK mai mater i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod yw hwn.</p> <p>Esboniodd FK, er mwyn canolbwyntio ar degwch, fod angen i ni ganolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae hwn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Lles. Mae'r adroddiad yn cynnig gwiriad synnwyr posibl ar gyfer yr hyn rydym yn ei wneud yn ein sefydliadau, a sut rydym yn gweithio trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.</p>	
8.	<p><b>Cynnig ar gyfer Ymchwil i Dir a Chynhyrchu Bwyd</b></p> <p>Nid oedd modd i Louise Denham, Cydlynnydd Bwyd y Fro fynychu'r cyfarfod a bydd e-bost yn cael ei anfon at yr holl bartneriaid yn rhoi gwybod am waith arfaethedig ac yn gofyn am sylwadau. Gall hyn wedyn gael ei drefnu ar gyfer cyfarfod mis Mai os oes angen.</p>	HM
9.	<p><b>Blaenraglen Waith 2023</b></p> <p>Esboniodd HM fod y rhaglen waith wedi'i dosbarthu. Ar gyfer y cyfarfod ym mis Mai, mae'r eitemau posibl yn cynnwys diweddariadau ar y Siarter Argyfwng Hinsawdd, y cynllun ymgysylltu ar gyfer ardaloedd o amddifadedd a gweithgareddau Bro sy'n dda i bobl hŷn. Bydd eitem ar</p>	

	<p>yr agwedd arfaethedig at yr adroddiad blynyddol hefyd yn cael ei chynnwys. Bydd diweddariad ar adnewyddu strategaeth y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod diweddarach ar gais AH.</p> <p>Gofynnwyd i'r partneriaid roi gwybod i HM am eitemau agenda yn y dyfodol.</p>	Pawb
<b>10.</b>	<p><b>Unrhyw Fater Arall</b></p> <p>Esboniodd HM fod SH wedi gofyn a fyddai modd codi digwyddiadau ar Heol Holltwn yn y cyfarfod ac wedi gofyn beth oedd yn digwydd mewn ymateb i'r digwyddiadau diweddar.</p> <p>Rhoddodd DR ddiweddariad ar sefyllfa Heol Holltwn. Mae grŵp o bobl ifanc sy'n hysbys i'r heddlu a rhai unigolion newydd sydd wedi bod yn achosi digwyddiadau. Mae'r Heddlu wedi bod yn edrych ar opsiynau gwyrho yn lle system cyfiawnder troseddol hyd yma. Fodd bynnag, mae angen iddynt hefyd fabwysiadu dull mwy cadarn o arestio ac erlyn. Mae cynllun wrth gefn wedi'i sefydlu, gyda staff arbenigol yn cymryd rhan ac yn blaenoriaethu Heol Holltwn o ran patrolio. Mae hyn yn cael ei drin fel blaenoriaeth uchel ar hyn o bryd ac mae'r materion ar eu hagenda.</p> <p>HM i anfon e-bost at SH gyda'r wybodaeth a diweddariad i gael ei roi yn y cyfarfod nesaf.</p>	DR/HM
<b>11.</b>	<b>Dyddiad y cyfarfod nesaf - 3 Mai 2023</b>	